



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

**Fframwaith DPP mewn Addysg i Raddedigion**

**YSGOL ADDYSG A PHOLISI CYMDEITHASOL**

**Gwybodaeth am y Cyfnod Cynefino ac Ymrestru  
MYFYRWYR RHAN-AMSER**

**Blwyddyn Academaidd 2018/2019**

## CYNNWYS

1. [Croeso oddi wrth ein Tîm Addysgu](#)
2. [Amodau cyn-ymrestru](#)
3. [Rhestr Ddarllen Ragarweiniol](#)
4. [Ymrestru / Casglu Cerdyn Adnabod](#)
5. [Amserlen yr Wythnos Gynefino](#)
6. [Amserlen](#)
7. [Dolenni defnyddiol](#)

## 1. Croeso oddi wrth eich Tîm Addysgu

Croeso cynnes iawn i Fframwaith DPP i Raddedigion yn **Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd**, Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rydym yn dîm o addysgwyr proffesiynol profiadol sydd wedi ymrwymo i anghenion datblygiad academiaidd a phroffesiynol amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ym maes addysg.

Mae ein tîm addysgu wedi'i ffurfio o staff sydd wedi'u cyflogi yn ddarlithwyr ac ymchwilwyr amser llawn ynghyd ag ystod o gydweithwyr rhan-amser sy'n dod â phersbectifau ychwanegol o bolisi ac ymarfer addysg gyfoes.

Bob blwyddyn byddwn yn croesawu grŵp amrywiol o fyfyrwyr i'n cymuned ddysgu ôl-raddedig, gan gynnwys athrawon gweithredol, gweithwyr ieuenctid/cymunedol, a gweithwyr proffesiynol eraill o faes addysg a fydd yn astudio gyda ni yn rhan-amser. Byddwn yn croesawu hefyd ein myfyrwyr amser llawn o'r DU ac o amrywiaeth o leoliadau rhyngwladol.

Mae ein myfyrwyr yn dweud wrthym bod yr amrywiaeth yma o fyfyrwyr yn rhoi cyfleoedd eithriadol i ddysgu gan gyd-fyfyrwyr ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn anogaeth i chi ddysgu a datblygu cysylltiadau parhaus gyda myfyrwyr eraill.

Mae profiad gan ein staff addysgu o ran adnabod ac ymateb i ofynion myfyrwyr ôl-raddedig. Ein gwaith yw eich annog a'ch cefnogi i gyflawni eich potensial academiaidd a phersonol. Caiff tiwtor personol ei neilltuo i bob myfyriwr ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd i helpu i osod nodau, i gael bod yn bwynt cyswllt er mwyn adolygu cynnydd academiaidd a phroffesiynol, ac i ymateb yn hyblyg i unrhyw faterion a allai fod yn effeithio ar gynnydd academiaidd.

Hoffwn estyn ein dymuniadau gorau i chi gael profiad llwyddiannus a phleserus wrth i chi ddechrau ar yr MA.

**Tîm Fframwaith DPP**

## 2. Dewis Modiwlau cyn-ymrestru

Mae ein rhaglen wedi'i hadolygu eleni i gynnwys amrywiaeth o fathau o fodiwlau. Mae tasgau asesu gan rai o'r modiwlau y gellir eu cwblhau heb yr angen am brofiad gwaith. Mae tasgau asesu gan fodiwlau eraill lle y bydd angen i fyfyrwyr ymgysylltu ag ymarfer addysg er mwyn dangos theori'n cael ei chymhwyso i ymarfer. A chithau'n fyfyrwyr rhan-amser, bydd y rhan fwyaf ohonoch â swydd o ryw fath mewn sefydliad addysgol a byddwch yn gallu cyflawni gofynion ymarfer yng nghyd-destun eich gweithle.

Os nad yw'n debygol eich bod â swydd o fewn sefydliad addysgol yn ystod y cyfnod y byddwch wedi ymrestru ar yr MA, dylech drafod hyn gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen cyn gynted â phosib i ni gael sicrhau y cewch yr holl gymorth a chefnogaeth a fydd eu hangen arnoch er mwyn dewis y modiwlau iawn ar gyfer eich sefyllfa chi.

Mae gwybodaeth am ddewis modiwlau ac am amserlenni yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a chaiff ei hanfon atoch cyn gynted â phosib.

Cysylltwch â Jan Huyton drwy ebost ar [JHuyton@cardiffmet.ac.uk](mailto:JHuyton@cardiffmet.ac.uk). Bydd Jan yn gallu eich cynghori ar ddewis modiwlau ac ar unrhyw brofiad gwaith gofynnol. Mae Jan yn barod iawn i gael trafod hyn yn anffurfiol â chi cyn dechrau'r tymor.

### **CYFLE I ASTUDIO YR YMCHWILYDD CREADIGOL / THE CREATIVE RESEARCHER (Dulliau Ymchwil) YM MIS AWST**

Mae'r modiwl MAE7121 Yr Ymchwilydd Creadigol/The Creative Researcher yn orfodol i bob myfyriwr a fydd yn gwneud y traethawd hir, a chaiff ei asesu drwy baratoi cynnig ymchwil fel y gallwch ddechrau eich traethawd hir cyn gynted â phosib. Caiff y modiwl hwn ei gyflawni mewn bloc addysgu ar Awst 7<sup>fed</sup>, 8<sup>fed</sup> a 9<sup>fed</sup>, 9.30-4.30 ar Gampws Cyncoed. Mae nifer o fyfyrwyr gennym eisoes sydd am ddechrau'n gynnar fel hyn. Os hoffech gymryd yr opsiwn hwn neu os ydych am drafod/gofyn cwestiynau ynglŷn â gofynion presenoldeb, cysylltwch â Jan Huyton ar ebost [JHuyton@cardiffmet.ac.uk](mailto:JHuyton@cardiffmet.ac.uk)

### 3. Rhestr Ddarllen Ragarweiniol

Dyma waith darllen awgrymedig a allai fod yn ddefnyddiol i'ch paratoi ar gyfer eich rhaglen astudio. Nid yw hyn yn ofynnol ond gallai eich helpu i siapia eich meddyliau a'ch paratoi ar gyfer eich astudiaethau.

#### Technegau Ymarfer Adfyfyriol

Bolton, G. (2014) *Reflective Practice: Writing and Professional Development*. Llundain: Sage

#### Ymchwilio i'ch ymarfer chi eich hunan

Mason, J. (2002) *Researching Your Own Practice: The Discipline of Noticing*. Llundain: Routledge Falmer

#### Polisi Addysg

Ball, S. (2013) *The Education Debate*. 2<sup>ll</sup> arg. Bryste: The Policy Press

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymmwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer 3 – 19 oed yng Nghymru*. Ar gael yma: <http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/qualified-for-life-an-educational-improvement-plan/?lang=en>

Donaldson, G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Ar gael yma: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-en.pdf>

#### Sgiliau Meddwl Beirniadol

Cottrell, S. (2011) *Critical Thinking Skills*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

#### Dulliau Ymchwil

Thomas, G. (2013) *How to do Your Research Project*. Llundain: Sage

#### Gwefannau

TES (Times Educational Supplement) – fersiwn ar-lein y papur addysgol hwn <http://www.tes.co.uk/> Edrychwch hefyd ar TES Cymru, fersiwn benodol ar gyfer Cymru.

National College for Teaching and Leadership  
<https://www.gov.uk/government/organisations/national-college-for-teaching-and-leadership>

Infed (erthyglau academaidd ar amrywiaeth o bynciau addysgol, gan gynnwys addysg anffurfiol, gwaith ieuencid/cymunedol ac athroniaeth addysg) <http://infed.org/mobi/aboutus/>

Concept (The Journal of Contemporary Community Education Practice Theory)  
<http://concept.lib.ed.ac.uk/index.php/Concept/index>

**Papurau Newydd:** Times Educational Supplement; Times Educational Supplement (Cymru)

## 4. Ymrestru / Casglu MetGerdyn

### Ymrestru

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe [www.cardiffmet.ac.uk/enrolment](http://www.cardiffmet.ac.uk/enrolment) a dilyd y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.** Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

### Dewis Modiwlau

Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r wybodaeth derfynol ynglŷn â dewis modiwlau ac amserlenni yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a chaiff ei hanfon atoch cyn gynted â phosib. Pan fydd y wybodaeth yn barod, gofynnir i chi ddewis eich modiwlau. Bydd cynnig terfynol y modiwlau yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr a fydd wedi dewis pob modiwl.

### Casglu MetGerdyn

Gwneir trefniadau i chi gael eich llun wedi'i dynnu ac i gasglu eich MetGerdyn ar y diwrnod cynefino (Dydd Iau, Medi 20<sup>fed</sup>). Mae hyn yn bwysig iawn gan y bydd yn rhoi mynediad i chi i gyfleusterau'r llyfrgell yn ogystal ag i wasanaethau eraill y brifysgol a mynediad drwy ddrysau diogelwch.

## 5. Amserlen y Cyfnod Cynefino

Gwahoddir pob myfyriwr i ddod i'r cyfnod cynefino a gynhelir ar **Ddydd Iau, Medi 20<sup>fed</sup> 2018, am 5pm ar Gampws Cyncoed. Cewch wybod rhif yr ystafell pan fydd hyn wedi'i gadarnhau a bydd y Brif Dderbynfa yn gallu eich cyfeirio.**

Dyma amserlen y diwrnod cynefino:

- 5.00 Cyrraedd ac ymgartrefu
- 5.15 Croeso a chyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Rhaglen
- 6.00 Gobeithion a disgwyliadau
- 6.30 Llyfrgell a sgiliau academiaidd
- 7.00 Cyfleusterau a gwasanaethau eraill
- 7.15 Cwestiynau a materion gweinyddol unigol

**Os bydd angen i chi ddod â dogfennau gyda chi, megis llythyrau oddi wrth gyflogwyr a phrawf o'ch cymwysterau, fe wnawn roi gwybod i chi ymlaen llaw.**

## **6. Amserlen**

Ar hyn o bryd mae'r amserlenni'n cael eu paratoi a chân nhw eu hanfon atoch cyn gynted ag y byddan nhw'n barod, ynghyd â'r wybodaeth am ddewisiadau modiwlau.



## 7. Dolenni defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)

Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campwsau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabledd a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)

Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys